



'Thomas Pennant' gan Thomas Gainsborough, 1776 (Amgueddfa Cymru)



**CYMDEITHAS
THOMAS PENNANT**

'The Father of Cambrian Tourists...'



Ynglŷn â'r Gymdeithas

Grŵp bychan o gyfeillion a oedd yn rhannu diddordeb yng nghysylltiad Thomas Pennant ag ardal Treffynnon a Chwitffordd a sefydlodd Gymdeithas Thomas Pennant. Ar ôl mwynhau cerdded ar hyd llwybrau a ddisgrifir yng ngweithiau Pennant, penderfynwyd creu cymdeithas er mwyn codi ei broffil. Cydnabyddid Pennant yn y ddeunawfed ganrif fel awdurdod ar fyd natur ac astudiaethau hynafiaethol, a chafodd ei anrhydeddu ym Mhrydain ac yn rhyngwladol am ei lyfrau gwyddonol a'i lyfrau taith. Serch hynny, teimlai'r grŵp nad oedd ei arwyddocâd fel awdur a'i waddol hirhoedlog mewn sawl maes yn cael ei lwyr werthfawrogi yn ei wlad ei hun. Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1990, ac y mae'n trefnu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau i hyrwyddo diddordeb yng ngwaith Pennant, ac yn y rhan o sir y Fflint a elwir 'Gwlad Pennant'. Y mae'n cwmpasu aelodaeth graidd o dros drigain aelod, a chafwyd cefnogaeth dda i'r amryfal ddigwyddiadau a drefnwyd dros y blynyddoedd. Ein huchafbwynt yw'r Ddarlith Flynyddol a draddodir gan siaradwyr gwadd sydd yn arbenigwyr cydnabyddedig ar fywyd a gwaith Thomas Pennant. Bu modd i'r Gymdeithas ffynnu dros gyfnod mor hir oherwydd diddordeb triw a brwd ei haelodau; y mae hefyd wedi derbyn cefnogaeth ar adegau gan awdurdodau lleol megis Cyngor Tref Treffynnon a Chyngor Cymuned Chwitffordd. Codwyd ymwybyddiaeth o'n gwaith yn ddiweddar yn ogystal drwy gydweithrediad â phrosiectau academiaidd.

'Thomas Pennant', yn ôl pob tebyg gan Joseph Highmore, c. 1740 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru);
(yn uwch) miniatur gan Josiah Wedgwood




Teulu bonedd Cymreig yn byw ym Mychtyrn, ym mhlwyf Chwitffordd, oedd y Pennantiaid. Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg etifeddodd Pennantiaid Bychtyrn Stad Downing gan ymgyfoethogi a dyrchafu o ran statws yn sylweddol o ganlyniad. Ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, yr oedd yr ardal yn parhau i fod yn wledig, ond yn ystod y ganrif ehangodd y diwydiannau cynnar yn Nyffryn Maes Glas gerllaw yn ddramatig. Ganed Thomas Pennant ym Mhlasty Downing yn 1726; mynychodd yr Ysgol Ramadeg yn Wrecsam, cyn symud i ysgol yn Fulham, lle yr astudiodd Ffrangeg, Groeg a Lladin. Yr oedd ganddo eisoes gariad at adareg a byd natur a fu gydag ef gydol gweddill ei fywyd. Aeth ymlaen i astudio yng Ngholeg y Frenhines a Choleg Oriol yn Rhydychen; yn unol ag arfer teuluoedd bonedd y cyfnod, gadawodd heb radd ffurfiol.

Yn ei dridegau cynnar priododd Pennant Elizabeth Falconer o Gaer, merch i lefftenant yn y Llynges Frenhinol. Cawsant ferch, Arabella, a mab, David, ond bu farw Elizabeth y flwyddyn wedi genedigaeth y mab. Efallai mai ffordd o reoli ei alar yn dilyn y brofedigaeth hon oedd teithiau helaeth Pennant ar y cyfandir yn 1765. Aeth bron i bedair mlynedd ar ddeg heibio cyn iddo ailbriodi, y tro hwn â'i gymdoges, Ann Mostyn, chwaer Syr Roger Mostyn, pumed Barwnig. Cawsant hwythau ddau blentyn, Thomas a Sarah; bu farw'r ferch pan nad oedd ond pedair ar ddeng mlwydd oed.

Plasty Downing

Etifeddodd Thomas Pennant stad Downing yn 1763 pan oedd yn 37 mlwydd oed. Gan ddefnyddio'i wybodaeth ynghylch daeareg fe agorodd gloddfa blwm ar y stad, un a fu'n ddigon llwyddiannus i'w alluogi i adnewyddu a datblygu'r tŷ ar gerddi'n sylweddol. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg nid oedd disgynyddion o linach Pennant yn trigo mwyach ym Mhlasty Downing a bu hanes yr adeilad o'r cyfnod hwnnw yn ansefydlog. Rhoddwyd yr eiddo ar werth yn 1920, ac yn 1922 dinistriwyd yr adeilad gan dân difrifol, i'r fath raddau fel nad oedd yn ymarferol ei ailgodi. Ni ddinistriwyd Plasty Downing yn llwyr tan 1953.



Cyraeddiadau Thomas Pennant

Yr oedd gan Pennant gyloch eang o gyfeillion, a byddai'n cyfarfod a chyfathrebu gyda chyfoeswyr mawr eu bri yn y byd gwyddonol a thu hwnt, megis y botanegydd Linnaeus, y naturiaethwyr Peter Pallas a'r Comte de Buffon, Joseph Banks, Morrisiaid Môn a Gilbert White, Selbourne. Casglwyd ynghyd yn ei *British Zoology* fyrdd o wybodaeth newydd ynghylch anifeiliaid, adar, pysgod ac amffibiaid. Yr oedd yn frwd fel casglwr ffosilau a mwneu, ond cywreiniodd yn ogystal lu o weithiau celf gwerthfawr. Lluniwyd portread ohono gan Gainsborough yn 1776.

Teithiodd Pennant yn helaeth drwy Brydain Fawr a chyfandir Ewrop, gan gyhoeddi ei argraffiadau mewn cyfres o *Deithiau*. Darllenid a gwerthfawrogid y rhain yn eang yn eu cyfnod, ac y maent yn parhau i fod yn ffynhonnell gyfeiriol gyson i'r sawl sy'n rhannu'r un diddordebau â Pennant. Ysbrydolwyd teithiau llawer o ymwelwyr o Brydain a thramor i Gymru a'r Alban gan *Deithiau* Pennant yn y gwledydd hynny.

Enwyd aml blanhigion a rhywogaethau (cregyn yn enwedig) ar ôl Pennant fel cydnabyddiaeth o'i waith fel naturiaethwr, a rhoddwyd sawl gwobr iddo yn genedlaethol a rhyngwladol. Yr oedd yn Gymrawd o Gymdeithas Frenhinol yr Hynafiaethwyr; fe'i hanrhydeddwyd gan Gymdeithas Frenhinol Wyddonol Sweden; rhoddwyd Rhyddfrait Dinas Caeredin iddo; a derbyniodd yn ogystal Radd er Anrhydedd (LL.D) oddi wrth Brifysgol Rhydychen. Ar lefel blwyfol, bu Pennant, y sgweier lleol, hefyd yn Ynad Heddwch ac yn Uchel Siryf sir y Fflint.



Cyhoeddiadau Pennant

Yr oedd Pennant yn awdur toreithiog, a ymdriniodd ag amrywiaeth eithriadol o destunau yn cwmpasu pellter daearyddol eang – o'i gartref ym mhlwyf Chwitffordd i Tsieina, Japan a Hindwstan. Cedwir llawer o gopiâu Pennant ei hun o'i waith, sy'n tarddu o Blasty Downing, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, ac y mae gan y Gymdeithas yn ogystal lyfrgell gyfyngedig o lyfrau Pennant, a gedwir yn Archifdy Penarlâg a hefyd yn Swyddfeydd Cyngor Tref Treffynnon (gweler y rhestr a atodir i'r llyfryn hwn).




Moses Griffith, Castell Dunvegan, c. 1772 (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

Teithiau Pennant

Yr oedd Pennant yn deithiwr egnïol, a thramwyodd filltiroedd lawer yn ystod ei fywyd, gan ddewis teithio ar gefn ceffyl yn hytrach nag mewn cerbyd (oedd, meddai gyda ffraethineb sych, nodweddiadol ohono, yn ei atgoffa o'r 'daith olaf' honno mewn arch). Gwnâi nodiadau a darluniau ar y teithiau hyn, gan ychwanegu atynt yn ddiweddarach drwy ohebu â rhai y daethai i gysylltiad â hwy ar ei hynt. Galwyd ef 'y teithiwr gorau i mi erioed ddarllen ei waith' gan Samuel Johnson – clod, yn wir, gan un a oedd yn enwog am ei sarugrwydd ac a ddrwghoffai wleidyddiaeth Pennant.

Cydymaith hynod ddefnyddiol a gwybodus ar y teithiau o amgylch gogledd Cymru oedd y Parch. John Lloyd, rheithor Caerwys. Yn raddedig o Brifysgol Rhydychen ac yn hynafiaethydd, yntau, yr oedd Lloyd yn hynod o werthfawr i Pennant fel ysgolhaig a fedrai'r Gymraeg (fel cymaint o'r bonedd yn yr ardal hon yn y cyfnod, yr oedd Pennant ymhell o fod yn rhugl yn yr iaith). Yr oedd Lloyd yn adnabod yr ardal yn dda iawn yn ogystal, a rhoddodd gyngor ynghylch cynnwys a siâp y *Teithiau yng Nghymru* ar gyfer eu cyhoeddi. O 1770 ymlaen yr oedd Pennant hefyd yn aml yn teithio gyda'i artist Moses Griffith ('Fy Nhrysor'), a ddarparodd lawer o'r brasluniau a'r dyfrlliwiâu a gyhoeddwyd. O gefndir gostyngedig y deuai Moses, a aned ym Mryncroes ger Sarn Mellteyrn, Pen Llŷn, ond daeth ei fedr fel artist ag ef i sylw Pennant. Ac yntau'n ŵr ifanc, aeth i wasanaethu Pennant yn Downing, lle y cafodd ei hyfforddi er mwyn perffeithio'i allu i ddarlunio rhywogaethau a pheintio darluniau o adeiladau a thirluniau. Gweithiodd gyda Pennant hyd farwolaeth yr olaf ym 1798, ond fe'i hanogwyd hefyd gan Pennant i ymgymryd â gwaith 'comisiwn' drwy ei hawl ei hun. Y mae darluniau ac ysgythriadau Moses Griffith ymhlith uchafbwyntiau casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, a phrosiect y Llyfrgell i ddigido copïâu Pennant o'r *Teithiau yng Nghymru*, gyda'u haddurniadau helaeth, sy'n darparu llawer o'r delweddau hardd a welir yn y llyfryn hwn. Yn 2003, cyfrannodd Cymdeithas Thomas Pennant at garreg i goffáu Griffith ym Mryncroes; gwelir cofeb arall ym mynwent Eglwys Chwitffordd.

Yn yr eglwys blwyf hon, a gysegrwyd i'r Santes Fair a Beuno Sant, y dathlai teuluoedd Pennant a Mostyn briodasau a bedyddiadau; yma hefyd y cleddid eu meirw, ac y mae'r fynwent yn orffwysfan i nifer ohonynt hwy, ac i Moses Griffith yn ogystal. Credir fod Pennant wedi'i gladdu yn yr eglwys yn agos i'r allor. Ceir cofeb iddo o waith Westmacott o Lundain ger yr organ. Yn 2004 comisiynodd y Gymdeithas goflech iddo; fe'i lleolir ger porth mynwent dwyreiniol yr eglwys.



Gweithgareddau'r Gymdeithas

Darlithiau Blynyddol: Y rhain yw uchafbwynt ein blwyddyn. Cânt eu mynychu'n anrhydeddus yn flynyddol, gyda chyfartaledd o oddeutu pedwar ugain o bobl yn llenwi'r llyfrgell leol. Daw ein siaradwyr gwâdd â chyfoeth o wybodaeth arbenigol ynghylch bywyd a gwaith Thomas Pennant ger ein bron, a gwerthfawrogrir yn fawr bob amser eu parodrwydd i rannu eu harbenigedd. Y mae'r testunau a drafodwyd ar hyd y blynyddoedd yn amrywiol ac yn addysgiadol, fel diddordebau Pennant ei hun, a daw pob testun ag elfen annisgwyl i'w ganlyn wrth i ffeithiau a syniadau newydd gael eu rhannu. Y mae aelodau craff ein cynulleidfa bob amser yn falch o ehangu eu gwybodaeth ynghylch un oedd â'i wreiddiau'n ddwfn yn eu hardal hwy. Cynhwysir rhestr o deitlau ar ein gwefan.

Teithiau'r Gymdeithas: Yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf y mae'n haelodau wedi ymweld â nifer o fannau diddorol a chanddynt gysylltiadau â Thomas Pennant. Ar deithiau diweddar, ymwelwyd â Phlasty Shugborough, lle byddai Pennant wedi aros ar ei deithiau i Lundain a de Lloegr: yr oedd yn braf gweld nifer o beintiadau gan Moses Griffiths yn cael eu harddangos. Buom ar daith yn Sir Fôn, lle gwelsom y Golofn Goffa a godwyd i Forrisiaid Môn, ac yn Eryri, lle rhannodd ein Llywydd a'n Cadeirydd eu gwybodaeth leol. Aethom yn ogystal i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i gael clywed y newyddion diweddaraf ynghylch prosiect y Teithwyr Chwilfrydig ac i weld toreth o ddarluniau gan Moses Griffith a chyfrolau gwerthfawr yn ymwneud â bywyd a chyfnod Pennant.

Yn ogystal â'n Darlith Flynyddol, yr ydym yn darparu'n ddi-dâl mewn digwyddiadau cyhoeddus nifer o lyfrynau, taflenni a chopïau o ysgrifau sy'n gysylltiedig â gwaith Pennant a gwaith y Gymdeithas. Byddwn yn cynnal Boreau Coffi rheolaidd; yn trefnu ymweliadau diwrnod i safleoedd â chysylltiad Pennantaidd; yn cynnal cystadleuaeth Gwobr Goffa Meirion Griffith ar gyfer disgyblion mewn ysgolion lleol; a cheir Cinio Nadolig i orffen ein rhaglen bob blwyddyn mewn steil.

Cydweithredu â chymdeithasau a sefydliadau eraill

Y mae Cymdeithas Thomas Pennant yn cynnig croeso cynnes i unrhyw ysgolheigion sy'n gweithio ar hanes a diwylliant sir y Fflint a gogledd Cymru. Yr ydym wedi elwa dros y blynyddoedd o bartneriaethau cynhyrchiol gydag unigolion, cymdeithasau a sefydliadau. Siapiwyd Astudiaethau Pennant fel maes yn sylweddol gan R. Paul Evans, un o'r aelodau gwreiddiol, a'i draethawd doethurol ef yw'r unig astudiaeth o hyd llyfr ynghylch yr awdur a'i waith sydd ar gael hyd heddiw. Yr ydym hefyd yn falch fod ein Llywydd yn awdur a wobrwyyd am ei gyhoeddiadau ynghylch byd natur: enillodd Goronwy Wynne wobwr Llyfr y Flwyddyn yn 2018 am ei gyfrol *Blodau Cymru: Byd y Planhigion*. Y mae gwaith sydd ar droed yn Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ym Mhrifysgol Bangor (<http://iswe.bangor.ac.uk/index.php.cy>) yn un cyfeiriad academaidd perthnasol i Pennant, ac y mae gennym bartneriaeth gynhyrchiol mewn bod â phrosiect y Teithwyr Chwilfrydig, a redir ar y cyd gan Ganolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru a Phrifysgol Glasgow, lle canolbwyntir ar deithiau Pennant yng Nghymru a'r Alban, ac ar ei ohebiaeth helaeth:

<https://curioustravellers.ac.uk/cy>



Am wybodaeth bellach a'r diweddaraf ynghylch ein digwyddiadau, ymwelwch â:

<https://www.cymdeithasthomaspennant.com>



Gweithiau gan Pennant a gedwir ar gyfer y Gymdeithas yn Archifdy Sir y Fflint, Penarlâg

Works by Pennant held for the Society at Flintshire Record Office, Hawarden

1. *Tour in Scotland 1769* (1771)
2. *Genera of Birds* (1773)
3. *British Zoology* 1–4 (1776/7)
4. *A Tour in Wales* (1778)
5. *The Journey to Snowdon* (1781)
6. *History of Quadrupeds* (1781/93)
7. *A Journey from Chester to London* (1782)
8. *Indian Zoology* (1790)
9. *Some Account of London* (1791)
10. *The Literary Life of the late Thomas Pennant* (1793)
11. *Indices of Buffon's Ornithology* (1796)
12. *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (1796)
13. *Outlines of the Globe* (1798/1800)
14. *A Journey from London to Dover and the Isle of Wight* (1801)
15. *A Journey from Downing to Alston Moor* (1801)
16. *A Journey from Alston Moor to Harrowgate, and Brimham Crags* (1804)
17. *Tours in Wales* Vol 1–3 (1810)
18. *Tour on the Continent 1765* (1948)

Compiled July 2020 – from ref. Ted Huws (July 2016)



Moses Griffith, Mostyn Hall, 1770s or 80s (National Library of Wales)

Eitemau ar gael yn swyddfeydd Cyngor y Dref Treffynnon

Items held in the Holywell Town Council Offices

Works by Pennant

1. Thomas Pennant, *A Tour in Wales* (2 Vols). Facsimile copy of 1784 ed. with an introduction by R. Paul Evans (Bridge Books, 1991)
2. Thomas Pennant, *The Literary Life of the Late Thomas Pennant* (1793)
3. Thomas Pennant, *A History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (1796). Facsimile copy: Clwyd County Council (1988)
4. *Pennant and his Welsh Landscapes: Selected readings from the 'Tours in Wales' (1778/1784)* Edited with an introduction by Gwyn Walters (Gwasg Gregynog, 2006)

Other works

5. Peter Bishop, *The Mountains of Snowdonia: A Visualisation of Mountain Scenery from the Mid Eighteenth Century to the Present Day* (2015)
6. Ian Brown, *Discovering a Welsh Landscape: Archaeology in the Clwydian Range* (2004)
7. Norman Closs-Parry and Heulwen Closs-Sharp, *The Folk Poets* (2019)
8. Mary-Ann Constantine and Nigel Leask (eds), *Enlightenment Travel and British Identities: Thomas Pennant's Tours in Scotland and Wales* (2017)
9. *Enwogion Llŷn* (1984)
10. John Gascoigne, *Joseph Banks and the English Enlightenment* (1994)
11. Christopher Mitchell, *Lost Lakeland: in the Footsteps of Thomas Pennant* (2013)
12. Gilbert White, *The Natural History and Antiquities of Selbourne* (1813)
Facsimile copy with an introduction by P. G. M. Foster
13. Gilbert White, *The Illustrated Natural History of Selbourne* (1789/1813)
Introduction by June E. Chatfield (1981)
14. Goronwy Wynne, *Iaith Sir Fflint: Geirfa a Thafodiaeth y Gymraeg yn yr Hen Sir* (2005)

Prints:

1. 'Mr Pennant's Mill at Downing'
2. 'Basingwerk Abbey'
3. 'St Winifred's Well'
4. 'Flint Castle'
5. 'Whitford Church' from a Moses Griffith watercolour.

Photographs: Visit to Bychton site with Dr Eiddwen Jones (August 2019)
Visit to Shugborough Hall (September 2019)